# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tŷ Alarch**

**Merthyr Tudful**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20/09/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Tŷ Alarch

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cygnet Behavioural Health Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 01/12/2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a roddir iddynt. Mae'r cynlluniau a'r asesiadau risg manwl yn helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae adolygiadau rheolaidd yn sicrhau bod unrhyw newidiadau i anghenion y bobl yn cael eu dogfennu a bod y cynlluniau'n gyfredol o hyd. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi'r bobl i fynegi eu barn a gwneud dewisiadau am eu bywydau o ddydd i ddydd. Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel a'i rhoi fel y'i rhagnodir. Gall y bobl lenwi eu diwrnodau mewn ffordd gadarnhaol a gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt.

Caiff gofal ei ddarparu gan dîm cyson o staff sy'n deall anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae'r staff gofal yn parchu dewisiadau ac arferion unigol. Mae amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau yn gyfredol ac yn addas at y diben. Mae'r prosesau recriwtio staff yn ddiogel ac mae'r lefelau staffio yn ddigonol. Nid oes unrhyw beryglon yn yr amgylchedd, ac mae wedi'i addurno'n hyfryd. Mae'r staff yn cael budd o sesiynau goruchwylio a hyfforddi rheolaidd. Mae systemau ar waith i fonitro ansawdd y gofal a ddarperir i'r bobl.

## Llesiant

Mae'r gwasanaeth yn deall dymuniadau'r bobl ac yn cefnogi dewis. Mae'r bobl yn cael cymorth i wneud penderfyniadau am y ffordd y darperir eu gofal a gallant gymryd rhan yn y broses o lunio cynlluniau a chyfrannu at adolygiadau. Mae'r staff gofal yn annog dewisiadau sy'n golygu y gall y bobl benderfynu sut a ble yr hoffent dreulio eu hamser. Dywedodd y bobl wrthym fod hyblygrwydd ar gael iddynt wrth wneud penderfyniadau am ddeiet, gweithgareddau ac amserlenni dyddiol. Mae'r staff yn ymddangos yn ofalgar ac yn hawdd mynd atynt, ac mae'r bobl yn teimlo bod eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod a'i gefnogi. Mae'r tîm o staff yn casglu adborth am y gofal a ddarperir yn rheolaidd ac yn trafod unrhyw feysydd y gallai fod angen eu gwella. Caiff y bobl gyfle i gymryd rhan mewn cyfarfodydd preswylwyr rheolaidd lle cânt eu hannog i fynegi eu barn a'u safbwyntiau.

Mae systemau ar waith er mwyn helpu'r bobl i gael y gofal a'r cymorth cywir. Mae'r cynlluniau manwl sy'n cael eu cwblhau yn sicrhau bod gan y staff cymorth ddealltwriaeth dda o gefndir ac anghenion presennol y bobl. Mae'r cofnodion yn dangos bod gan y gwasanaeth gysylltiadau cadarnhaol â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Mae'r prosesau ar gyfer rhoi storio a chofnodi meddyginiaeth o safon dda. Caiff diddordebau'r bobl eu cydnabod, a chaiff gweithgareddau eu haddasu i gyfateb i ddewisiadau unigolion. Mae'r lefelau staffio yn ddigonol er mwyn sicrhau y gellir diwallu anghenion unigol mewn modd amserol. Mae'r staff gofal yn rhoi cymorth i'r bobl fod mor annibynnol â phosibl ac yn eu helpu i feithrin sgiliau newydd os byddant am wneud hynny. Mae adborth cadarnhaol gan y bobl yn dangos bod y staff gofal yn eu trin ag urddas a pharch, sy'n cefnogi eu llesiant cyffredinol.

Mae amgylchedd y cartref yn ddymunol ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Gwelsom fod yr ardaloedd cymunedol yn olau, yn gartrefol ac yn groesawgar. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli i adlewyrchu diddordebau a phersonoliaethau'r bobl. Caiff gwiriadau cynnal a chadw eu cwblhau er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn parhau'n ddiogel ac mewn cyflwr da.

Mae mesurau ar waith i ddiogelu'r bobl rhag niwed. Caiff gwiriadau recriwtio diogel eu cwblhau er mwyn sicrhau bod staff addas yn cael eu cyflogi yn y gwasanaeth. Mae'r polisïau yn fanwl a chaiff hawliau cyfreithiol y bobl eu cydnabod a'u cefnogi. Cadarnhaodd y staff gofal eu bod yn deall eu rolau o ran amddiffyn y bobl a'u bod yn hyderus wrth roi gwybod i'r rheolwr am unrhyw bryderon. Mae asesiadau risg unigol yn darparu strategaethau i leihau unrhyw risgiau posibl yn y gwasanaeth neu'r gymuned ehangach.

Nid yw'r darparwr yn darparu ‘cynnig rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg ar hyn o bryd.

## Gofal a Chymorth

Mae cynlluniau ar gael i'r staff gofal eu gweld sy'n nodi'r cymorth sydd ei angen ar y bobl i gadw'n iach. Mae'r cynlluniau personol wedi'u hysgrifennu'n glir, maent yn rhoi gwybod i'r staff gofal am y ffordd orau o gefnogi pob person ac yn canolbwyntio'n gadarnhaol ar gryfderau a galluoedd y bobl. Mae'r cynlluniau yn cynnwys nodau a dyheadau cymdeithasol, cymunedol ac addysgol y bobl. Roedd yr asesiadau risg a welsom yn gadarn ac yn helpu'r staff i nodi, deall a rheoli unrhyw risgiau posibl. Mae adolygiadau rheolaidd yn trafod unrhyw newidiadau neu gynnydd a wnaed tuag at gyflawni nodau unigol.

Mae trefniadau meddyginiaeth priodol ar waith. Roedd y sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth a welsom yn dangos bod siartiau yn cael eu cwblhau'n llawn a gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi'r bobl sy'n gallu cymryd eu meddyginiaethau eu hunain, ac mae'r cynlluniau unigol yn nodi'r lefel o gymorth sydd ei hangen arnynt i wneud hynny yn ogystal ag unrhyw risgiau a nodwyd. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar roi meddyginiaeth a chynhelir archwiliadau meddyginiaeth yn rheolaidd. Mae polisïau meddyginiaeth cyfredol ar waith i gefnogi arferion da.

Mae'r gweithgareddau a'r dewisiadau deietegol yn hyblyg. Cadarnhaodd y bobl eu bod yn cael eu cynnwys wrth brynu a pharatoi bwydydd a'u bod yn gallu dewis pryd i fwyta eu prydau. Caiff y bobl eu hannog i fod mor annibynnol â phosibl ac mae'r staff yn eu helpu i ymgymryd â thasgau coginio a chadw tŷ. Gwelsom dystiolaeth fod amrywiaeth o weithgareddau hyblyg ar waith er mwyn helpu'r bobl i lenwi eu diwrnod. Caiff y bobl eu cefnogi i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau, ac i fynd allan i'r gymuned ehangach.

Mae gan y bobl gydberthnasau da â'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Gwelsom y staff yn ymgysylltu â'r bobl mewn modd hamddenol ac amyneddgar a gwelsom nifer o enghreifftiau o ryngweithio cyfeillgar drwy gydol yr arolygiad. Caiff cysyniadau hunaniaeth a rhywedd eu hystyried yn llawn a'u parchu gan y gwasanaeth. Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn cael gofal o ansawdd da gan grŵp o staff bach a sefydlog sy'n deall eu hanghenion. Mae'r sylwadau yn cynnwys, *"It's nice here, staff are great I have a lot of freedom", "Staff are good they can all take a joke, I feel settled here"* a *"Staff are lovely and really friendly".*

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn gartrefol, yn lân, yn gynnes ac yn groesawgar. Ymddengys fod pob rhan o'r cartref mewn cyflwr da ac wedi'i haddurno i safon dda. Mae'r gwasanaeth yn cynnig defnydd hyblyg o'r lleoliad sy'n golygu y gall y bobl dreulio amser preifat yn eu hystafelloedd gwely neu ddefnyddio'r ardaloedd cymunedol, fel y mynnant. Mae'r gegin yn ymddangos yn lân ac mae'n cynnwys digon o gyfarpar addas, ac mae amrywiaeth ddigonol o fwydydd o'u dewis ar gael i'r bobl. Gellir defnyddio cyfleusterau'r gegin ar unrhyw adeg ac mae hyn yn cefnogi hyblygrwydd ac annibyniaeth y bobl.

Mae'r adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n ddiogel i'w ddefnyddio. Gwelsom fod cynhyrchion sy'n beryglus i iechyd yn cael eu storio'n ddiogel a bod pob ardal storio yn cael ei chloi. Caiff ffeiliau personol a gwybodaeth gyfrinachol eu storio'n ddiogel a dim ond aelodau awdurdodedig o staff all gael gafael arnynt. Mae gan y bobl gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng sy'n benodol i'w anghenion cymorth unigol. Mae'r swyddog cynnal a chadw yn cadw cofnodion clir i ddangos bod yr holl wiriadau gofynnol wedi'u cwblhau. Mae'r profion diogelwch nwy a thrydan yn gyfredol a chaiff yr holl gyfarpar ei wasanaethu er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd y safonau. Caiff ymarferion tân eu cynnal yn rheolaidd. Dywedodd y staff a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym fod cyfarpar glanhau a chyfleusterau golchi dillad digonol ar gael iddynt. Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau rheoli heintiau clir ar waith.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi a goruchwylio parhaus ar gael. Gwelsom dystiolaeth fod hyfforddiant sefydlu yn cael ei gynnig i bob aelod newydd o staff. Mae adborth gan y staff yn dangos bod y sesiynau hyfforddiant o ansawdd da ac yn eu helpu i deimlo'n gymwys ac yn gyfforddus yn eu rôl. Gwelsom yn y cofnodion goruchwylio fod y staff yn cael budd o sesiynau cymorth goruchwylio rheolaidd. Cynhelir y sesiynau hyn er mwyn trafod ymddygiad proffesiynol, cyfleoedd datblygu, materion llesiant ac unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth.

Mae'r gwiriadau recriwtio yn effeithiol, ac mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Gwelsom fod y ffeiliau recriwtio yn drefnus, a'u bod yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol i sicrhau bod y staff yn addas a'u bod yn meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau angenrheidiol. Gwelsom fod y staff wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, rheoleiddiwr y gweithlu. Mae hyn yn bwysig gan fod cofrestriad yn sicrhau bod y staff yn meddu ar y gwerthoedd a'r sgiliau cywir a'u bod wedi'u hyfforddi'n briodol. Nododd nifer o'r staff gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau gweithio i'r gwasanaeth a'u bod o'r farn bod y rheolwyr yn gwrando arnynt. Mae'r sylwadau yn cynnwys, *“We all work well as a team”, “Everyone gets on here, it’s a very chilled nice atmosphere”, “I love my job, I love it here”* a *“The managers really supportive”.*

Mae nifer o bolisïau a phrosesau effeithiol yn helpu'r gwasanaeth i redeg yn ddidrafferth. Gwelsom fod y datganiad o ddiben yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir. Mae gan y gwasanaeth amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau manwl ar waith i gefnogi'r arferion o ddydd i ddydd. Mae dogfennau yn dangos bod y gwasanaeth yn cadw cofnod o ddigwyddiadau a damweiniau yn ogystal ag unrhyw gamau a gymerwyd. Defnyddir amrywiaeth eang o adnoddau archwilio er mwyn gwneud yn siŵr bod prosesau yn cael eu dilyn a'u bod yn parhau'n effeithiol. Mae'r rota staffio yn dangos bod digon o staff gofal i ddarparu'r lefel gywir o ofal a chymorth a gwelsom fod y lefelau staffio yn ddigonol ar ddiwrnod yr arolygiad.

Mae'r adnoddau sicrhau ansawdd yn annog arferion da. Gwelsom dystiolaeth fod yr unigolyn cyfrifol arfaethedig mewn cysylltiad rheolaidd â'r staff a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol arfaethedig yn rhannu gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth mewn perthynas â safon y gofal a ddarperir a'r canlyniadau cadarnhaol y maent am eu cyflawni a'u cynnal.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 30/10/2024